

Cyngor Tref Criccieth

COFNODON CYARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWDYD NOS LUN 9 MAWRTH AM 7.00y.h YN SIAMBR
Y CYNGOR CRICCIETH

COPI DRAFFT

Gweddi.

.....

Cymerwyd y Weddi gan y Cyng. Dr E Tudor Jones.

Cof;-0103/15 Presennol

.....

Cadeirydd Cyng. Eirwyn Williams

Is Gadeirydd Cyng W A Evans

Cyng. Wayne Roberts

Cyng. Sian Williams.

Cyng.Dr E Tudor Jones.

Cyng.R Cadwalader.

Cyng.Elisabeth Regan.

Cyng. Henry Jones

Cyng.Phil Jones.

Cyng.R T Price.

Cyng.Elisabeth Geroge.

Cyng. Dafydd Lloyd.

Cof;-0203/15 Ymddiheuriadau

.....

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

Cof;-0303/15 Datgan Diddordeb.

.....

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan diddordeb mewn materion oedd i'w trafod.

Cof;0403/15 Cadarnhau Cofnodi Mis Chwefror.

.....

Cadarnhawyd y cofnodion fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith.

Cof;-00503/15 Materion yn codi trwy ohebiaeth.

.....

Ni ddaeth unrhyw ohebiaeth i law.

Cof;-0603/15 Ceisiadau Cynllunio.

.....

a) Cais C15/0186/35/RC

Cyngor Tref Criccieth

Diddymu amd 106 o ganiatad C08D/0226/35/LL sy'n cyfyngu meddiannaeth at angen lleol fforddiadwy yn unig
Gerddi Arfonia.

PENDERFYNIAD;- Gwrthod, yr oedd yr ymgeiswyr wedi derbyn yr amod 106 ar y cynllun Gwreiddiol felly nid oes angen ei ddiddymu ar ôl amser byr o wneud y cais Y cais cyntaf.

b) Cais C15/0146/35/LL

Amrywio amod 18 o ganiatâd cynllunio /c12/1565/35/LL i ganiatáu dyluniad amgen Criccieth Tennis and Squash Club

PENDERFYNIAD;-Bu i'r Cyngor tref gefnogi'r cais gwreiddiol i godi byngalos oedd yn gweddu i'r ardal,Nid yw'r dyluniad yn y cais yma yn gweddu o gwbl na chyd fynd ar anheddau cyfagos felly yn unfrydol argymell gwrthod.

c) Cais C15/0190/35/LL

Codi Estyniad.
Dubrovnik Morannedd

PENDERFYNIAD;-Argymell Caniatau

Tynnwyd sylw fod yr enw "Gerddi Arfonia wedi diflannu a hefyd rifau tai Ty'n Rhos Addawodd y Clerc gysylltu ar adrannau priodol i dynnu ei sylw i hyn,

Gan fod peth poeni ynglŷn â chesidau cynllunio lle mae'r Cyngor Tref yn ei gwrthod ac yna yn groes i hynny cael ei basio gan Gyngor Gwynedd, penderfynnwyd rhoi gwadd i swyddog o'r adran gynllunio Cyngor Gwynedd ddod draw i gyfarfod y Cyngor Tref i drafod y mater.

(Ni fu i'r Cyng. Eirwyn Williams yr aelod lleol ar Gyngor Gwynedd gymryd rhan yn y trafodaethau, penderfyniadau, na phleidleisio ar unrhyw un o'r cynlluniau a drafodwyd yn y cyfarfod)

Cof;-0703/15 Prosiectau

.....

Cyflwynwyd adroddiad o'r is bwyllgor a gynhaliwyd ar y safle gyda chynrychiolaeth o Gyngor Gwynedd

Eglurwyd fod y Cyngor Tref yn awyddus i wario arian i uwchraddio'r safle sef yn y lle cyntaf, trwsio'r waliau, codi hysbysfwrdd priodol, a chael mainc i eistedd arni.Addawodd y swyddogion gynorthwyo trwy brisio'r gwaith allan.

PENDERFYNIAD;;- Anfon at Gyngor Gwynedd i gael gwybod y sefyllfa ddiweddaraf.

Cof;-0803/15 Nadolig.

.....

Adroddodd y clerch fod angen i ddau Aelod o'r Cyngor ddod gydag ef i'r Banc i agor cyfrif arbennig ar gyfer costau'r Nadolig.

PENDERFYNIAD;- Y clerch i wenud y trefniadau a hysbysu rhai o'r Aelodau o'r dyddiad a'r amser.

Cyngor Tref Criccieth

Cof;-0903/15 Cynllun Datblygu lloel ar y cyd Gwynedd a Mon

.....
Sylwyd yn y cynllun nad oes tir ychwanegol i'r hyn sydd yn y cynllun presennol wedi ei ddynodi ar gyfer adeiladu.

PENDERFYNIAD; Derbyn y wybodaeth.

Cof;- 1003/15 Gorchymyn Parcio oddi ar y stryd.

.....
Derbyniwyd copi o orchymyn parcio oddi ar y stryd yn gwneud Maes Parcio Aberistedd yn faes talu ac arddangos.

PENDERFYNIAD;- Gwrthwynebu gan fod y Maes Parcio yma yn cael ei ddefnyddio'n gyson gan y cyhoedd ar gyfer gadael ei moduron i fynd i gerdded llwybr yr arfordir,.
Byddai gorfod talu yn cael effaith ar dwristiaid sydd â diddordeb yn hyn.

Cof;1103/15 Llythyrau o ddiolch am gyfraniadau ariannol.

.....
Derbyniwyd llythyrau oddi wrth
Bwyllgor Mynwent llanystumdwy
Pwyllgor Rheoli y Neuadd Goffa,

PENDERFYNIAD;- Derbyn y wybodaeth.

Cof;-1203/15 Llwybr Rhif 11.

.....
Derbyniwyd dau lythyr oddi wrthaelodau o'r cyhoedd yn cwyno yn arw am gyflwr y llwybr yma, Yr oedd y Cyngor yn ymwybodol o gyflwr difrifol y llwybr ac eisoes mewn gohebiaeth ac adran llwybrau Cyngor Gwynedd.

PENDERFYNIAD;- Y clerc i ateb y cwynwyr ac anfon copïau o'r llythyrau i sylw Cyngor Gwynedd.

Cof;1303/15-Llwybr yr Arfordir. Ger Caffi Morannedd

.....
Derbyniwyd llythyr oddi wrth gyfadran amgylchedd Cyngor Gwynedd yn egluro ei bod hwy yn cymeryd cyfrifoldeb am y llwybr , y bont a'r ffens "post and rail" bren a godwyd, ond disgwylir i'r Cyngor Tref gymryd cyfrifoldeb am y cerfluniau.

PENDERFYNIAD; Y Cyngor Tref yn cymryd cyfrifoldeb am y cerfluniau.

Cof;-1403/15 Derbyniadau.

Cyngor Tref Criccieth

.....
Dim derbyniadau i law

Cof;-1503/15 Taliadau.

.....	
£42.00 J D Roberts archwiliad mewnol 2013/14	100935
£97.00 Cyllid y wlad	100936
£850.00 Costau'r c;erc am 2014/15	100938

PENDERFYNIAD;- Rhoi hawl i'r Clerc dalu y biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Nos Lun 13 Ebrill 2015.

Bydd rhaglen y cyfarfod yn cau 3 Ebrill 2015.